

CaBan

Llawlyfr y Modiwl
XCC 1210
BA Blwyddyn 1
Profiad Ysgol

Profiad Ysgol 1

XCE-1210

Mae profiad ysgol yn rhan hanfodol o holl gyrsiau addysg gychwynnol athrawon. Mae'r modiwl hwn yn gyfle i chi arsylwi dysgwyr ac athrawon yn yr ysgol, rhoi cynnig ar syniadau a phrofiadau proffesiynol newydd ac, yn bwysicaf oll, adfyfrio ar eich ymarfer eich hun a'i wella.

Trosolwg

Bydd y modiwl hwn yn eich galluogi i gwblhau'r pedwar cam cyntaf o wyth o'ch datblygiad fel Athrawon Cyswllt (AC). **Bydd y camau hyn yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen** ac yna byddwch yn mynychu lleoliad cyn-ysgol ym mis Mai (cyn belled â bod canllawiau Covid y Llywodraeth yn caniatáu). Cewch eich rhoi mewn parau mewn ysgolion Rhwydwaith (lle bynnag bo'n bosibl) a gall ysgolion mwy o faint gynnig lle ar gyfer mwy nag un pâr o athrawon cyswllt.

Bydd pob cam o'r profiad ysgol yn ddeg diwrnod. Bydd y sesiynau Ysgol Arweiniol bob amser wedi'u cysylltu'n agos â darlithoedd a gweithdai a gynhaliwyd yn flaenorol yn y SAU yn ogystal â'r cyfnod profiad ysgol blaenorol. Yn ogystal, bydd Mentoriaid Arweiniol y Rhwydwaith yn modelu ymddygiadau ac yn rhannu disgwyliadau ar gyfer diwrnodau ysgol y rhwydwaith. Mi wnaiff hynny sicrhau eich bod yn ystyried eich lleoliadau ysgol fel profiad parhaus yn hytrach na blociau ar wahân

Amcanion a phwrpas cyffredinol

Bydd y modiwl yn dechrau datblygu eich sgiliau proffesiynol gan baratoi ac integreiddio sgiliau ac addysgeg drwy gyfnodau cynyddol o brofiadau dysgu. Caiff strwythur y modiwl ei lywio gan y Meini Prawf sy'n ymwneud ag Achredu Rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru (Addysgu Athrawon Yfory) a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i Gymru. Drwy bartneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r sefydliad addysg uwch (SAU), bydd y modiwl yn:

- rhoi cefnogaeth i chi ddatblygu amrywiaeth o sgiliau (gan gynnwys eich gwybodaeth o'r Gymraeg i hyrwyddo 'Cymraeg Bob Dydd') ac ymarfer adfyfyriol i fodloni gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL) i ddod yn athro cymwysedig a chyfrannu at y gymuned ddysgu.
- sicrhau eich bod yn deall sut mae cymhwysio gwybodaeth ac ymarfer adfyfyriol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'r dysgwyr;
- rhoi cefnogaeth i chi adnabod amrywiaeth eang o dechnegau er mwy adfyfrio'n feirniadol ar eich datblygiad proffesiynol eich hun ac integreiddio i amgylchedd yr ysgol.

Cynnwys y Modiwl

Byddwch yn treulio 38 diwrnod mewn ysgol a lleoliad meithrin i ddechrau dysgu sut mae dod yn ymarferwyr trwy'r profiadau a enillwch mewn ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith. Bydd hynny'n cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr
- arsylwadau a datblygiad paratoadol
- ymchwil agos at ymarfer (ymchwiliadau ar raddfa fach)
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu
- mentora a hunan-adfyfrio

Bydd seminarau a gweithgareddau yn ystod diwrnodau'r Ysgol Arweiniol a'r SAU yn cysylltu'n agos â chynnwys XCE1211. XCE 1212, XCB1213, XCE1214, XCE1215.

Asesu

Yn ystod y modiwl byddwch yn adfyfrio'n barhaus ar eich cynnydd gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor ac yn uwchlwytho'r dystiolaeth berthnasol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP). Ar ddiwedd y modiwl, byddwch yn dangos eich bod wedi gwneud cynnydd boddhaol yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Yn achos y modiwl hwn, caiff llwyddo neu fethu ei gofnodi yn y bwrdd arholi gan ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL). Mae'r holl fanylion asesu yn erbyn y PSTL wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Asesu PSTL ac mae manylion am sut i ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP) ar gael ar-lein.

Deilliannau dysgu

Byddwch yn

- Dechrau cofnodi a gweithredu strategaethau ymchwil ar sail gweithredu addas
- Esbonio'n glir bwysigrwydd amgylchedd dysgu pwrpasol a chadarnhaol sy'n cefnogi anghenion pob dysgwr.
- Gallu gwerthuso eich ymarfer proffesiynol eich hun a dechrau dangos y gallu i gydweithio a sefydlu perthynas broffesiynol gyda mentoriaid/tiwtoriaid fel sail i ddatblygu'n annibynnol.
- Disgrifio amrywiaeth o dechnegau i adlewyrchu a mireinio eich ymarfer fel ymarferydd dosbarth a'ch swyddogaeth yn y gymuned ddysgu.
- Gwerthuso cyfleoedd addas i ddysgwyr ddatblygu sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm.
- Dangos eich bod yn gwneud cynnydd personol boddhaol yn ôl y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Nodi amrywiaeth o sgiliau cynllunio i sefydlu amgylchedd dysgu trefnus sy'n hyrwyddo dibenion y cwricwlwm ehangach/themâu trawsgwricwlaidd ac astudio sy'n seiliedig ar bwnc.

Cymraeg Bob Dydd a'r Cwricwlwm Cymreig

Tra byddwch ar Brofiad Ysgol, bydd disgwyl i chi hyrwyddo'r defnydd o *Gymraeg Bob Dydd* pryd bynnag a lle bynnag y bo modd, ar draws y cwricwlwm. Dylid defnyddio'r Gymraeg (Cymraeg Bob Dydd) yn naturiol fel ei bod yn rhan annatod o weithgareddau / arferion yr ystafell ddosbarth / yr ysgol gyfan.

Byddwch hefyd yn dechrau cynnwys pum prif agwedd y Cwricwlwm Cymreig mewn pynciau ac yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn eich gwersi.

Cyflwyno wedi'i lywio gan ymchwil ac addysgu seiliedig ar ymchwil

Mae dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd ag ymchwil yn gefn iddo'n sail i gynnwys a chyflwyniad y modiwl hwn a chaiff ei gyflwyno mewn ffordd sy'n cyfleu sut y cyfunir theori ac ymarfer. Yn y modiwl hwn byddwn yn cyflwyno ac yn disgrifio'n gryf gryfderau a gwendidau tystiolaeth yn yr ymarfer diweddaraf sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth ac sy'n sail i'r addysgeg a'r arferion dosbarth a gaiff eu trafod. Bydd cynnwys y modiwl yn eich cyflwyno i bwysigrwydd datblygu eich gallu i fod yn ddefnyddwyr ac yn gynhyrchwyr ymchwil a datblygu eich gwybodaeth o'r sbectrwm ymchwil sy'n llywio ymarfer dysgu yn ogystal ag arsylwi fel dull casglu data.


Arsylwi ac adfyfrio

Yn ogystal â'r cyflwyniad cychwynnol i addysgu effeithiol, bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddwy sgil ymchwil hanfodol i ymarferwyr: arsylwi ac adfyfrio. Byddwch yn defnyddio'r cwestiynau hyn i lunio eich adfyfyrdod ar eich ymarfer eich hun yn ogystal â'ch arsylwadau o eraill:

- *Beth wnaeth y disgyblion mewn gwirionedd?*
- *Beth oeddent yn ei ddysgu?*
- *Pa mor fuddiol oedd hynny?*
- *Beth wnes i? (Beth wnaeth yr athro/athrawes?)*
- *Beth wnes i ei ddysgu?*
- *Beth ydw i'n bwriadu ei wneud nesaf?* (Ebbutt, 1985, in Hopkins, D., 2014. *A teacher's guide to classroom research*. London, UK: McGraw-Hill Education).

Yr ail offeryn dadansoddol a ddefnyddir i ddadansoddi cyd-destun cymhleth ymarfer dosbarth fydd y Craidd Cyfarwyddol (City, E.A., Elmore, R.F., Fiarman, S.E. and Teitel, L., 2009. *Instructional rounds in education*. Cambridge, MA: Harvard Education Press.

http://www.macombfsi.net/uploads/1/5/4/4/1544586/instructional_rounds_-_principles.pdf



Ffig. 2 Y Craidd Cyfarwyddol (ar sail City et al, 2009 p23)

Y Dyddlyfr Proffesiynol

Trwy gydol y modiwl bydd gennych lawer o gyfleoedd i arsylwi, ymarfer ac adfyfrio. Byddwch yn cadw nodiadau ymchwil mewn dyddlyfr proffesiynol sydd wedi'i lunio i gefnogi'ch cynnydd fel athro cyswllt newydd.

Astudiaeth Gwers

Yng Ngham 3, bydd y mentor yn cynllunio ac yn dysgu gwers ac yn rhannu sail resymegol y cynllunio gyda chi. Yna byddwch chi'n arsylwi ar y wers ac yn olaf byddwch eich dau'n adolygu'r wers gyda'ch gilydd.

Dyma dri cham cyntaf Astudiaeth Gwers (Cajkler et al., 2013), sef methodoleg ymchwil y byddwch yn ei defnyddio eto ym modiwlau Profiad Ysgol yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. and Pedder, D., 2013. Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education? *Cambridge Journal of Education*, 43(4), pp.537-554.

Cyfrifoldebau Proffesiynol

- Yn ystod y chwe wythnos mewn lleoliad ysgol rhwydwaith, dylech gwblhau'r gweithgareddau canlynol:
- Gwrandewch ar ddysgwyr yn darllen a'u cefnogi lle bo'n briodol ac o dan gyfarwyddyd y mentor;
- Mynd gydag athro ar ddyletswydd iard un diwrnod yr wythnos;
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol y dosbarth dan arweiniad y mentor;
- Paratoi arddangosfa o waith plant / y ddarpariaeth well sy'n cefnogi dysgu

Gofynion Cyfreithiol

- Cael copi o bolisi'r ysgol ar Amddiffyn Plant, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Atal (gall hwn fod yn gopi electronig neu gopi caled).
- Sicrhau eich bod yn llenwi'r dudalen diogelu plant ar gyfer yr ysgol arweiniol a'r ysgol rwydwaith yn eich dyddlyfr proffesiynol.
- Cwblhau'r cod ymddygiad proffesiynol ar-lein cyn i'r lleoliad ddechrau.

Pedwar Cam Datblygiad Athrawon Cyswllt Caban

Cam 1

Ffocws: Dechrau deall sut mae cynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol gamau datblygu (datblygiad cyfannol) - mae'n cefnogi'r asesu *Asesiadau Cysylltiedig: Dyddlyfr Proffesiynol/Pasbort Dysgu Proffesiynol*

Cam 2

Ffocws: Cyfnerthu ymhellach ac adeiladu ar ymwybyddiaeth o gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol) a rheoli ymddygiad a dysgu. Dechrau deall asesu a'i effaith ar ddysgu disgyblion.

Datblygu ymarfer: Addysgu micro/addysgu tîm/addysgu fesul cam o dan arweiniad mentor (hyd at 30%).

Cam 3

Ffocws: Atgyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol)/Canolbwyntio ar gynllunio tymor byr. Dechrau adnabod ffyrdd o allu ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a datblygu ymwybyddiaeth o addysgeg pwnc-benodol (Astudiaethau Pwnc 1.1 Llythrennedd a'r Celfyddydau). Adnabod y sgiliau llythrennedd a rhifedd personol sydd angen eu datblygu.

Datblygu ymarfer: symud ymlaen fel bo'n briodol o ficroaddysgu/addysgu fel tîm i fwy o annibyniaeth a gwersi llawnach (hyd at 30%).

Cam 4

Ffocws: Atgyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol)

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth a gwersi llawnach (30%). Cynlluniau gwersi i ganolbwyntio ar agweddau o fewn Astudiaethau Pwnc 1.1 Datblygu llythrennedd ymhellach a 1.2 Datblygu rhifedd a TGCh ymhellach

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos cynllun manwl pedwar cam cyntaf y Modiwl Profiad Ysgol

Lleoliad

| |
|-----------------|
| Ysgol arweiniol |
| Ysgol rwydwaith |
| Y Brifysgol |

Byrfoddau

MARh - Mentor Arweiniol y Rhwydwaith
MY - Mentor Ysgol
APY - Adroddiad Profiad Ysgol

PF - Prif Fentor
FfAA - Ffurflen Asesu Addysgeg
MDaPh - Maes Dysgu a Phrofiad

Gall yr holl weithgareddau a amlinellir isod newid oherwydd COVID19.

Cam 1 Wythnos 1 (1/11/21 - 5/11/21)

Rhagarweiniad ac arsylwi.

Cyn Cam 1 cynhelir seminar dulliau ymchwil a fydd yn disgrifio'r canlynol: sut mae arsylwi; sut mae gwranddo; beth i chwilio amdano; gweithio'n foeseogol; natur tystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth; cadw dyddlyfr. **Oni nodir yn wahanol, bydd yr holl gyfleoedd arsylwi a dysgu'n digwydd yn y Cyfnod Sylfaen.**

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|--|---|--|---|--|
| <p>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol (PF)</p> <p>Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi dosbarth cyfan (gan ddilyn y model a welir yn yr ysgol arweiniol) gyda ffocws ar lafareddd/sgwrs (sgwrs athro, sgwrs â disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafareddd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi grŵp bach gan ganolbwyntio ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chanolbwyntio'n fanylach ar sgwrs disgybl-disgybl.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi grŵp bach a'r ffocws ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chofnodi'r hyn y mae'r dysgwyr yn ei wneud (gweithredoedd, rhyngweithio, gweithgareddau, ymgysylltu).</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol.</p> <p>Gwersi'r bore</p> <p>Canolbwyntio ar y ffordd mae dysgwyr yn rhyngweithio â'r meysydd darpariaeth, ymgysylltu, modelu a chefnogi dysgu yn y meysydd darpariaeth. Nodi cyfleoedd i ymgorffori sgiliau llythrennedd trwy gyfleoedd dysgu annibynnol dan arweiniad y plentyn.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu</p> |
| <p>Prynhawn</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd bydd yr Hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi gan gofnodi eu harsylwadau yn eu Dyddlyfr Proffesiynol.</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi, gan gofnodi eu harsylwadau yn eu Dyddlyfr Proffesiynol.</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd bydd yr Hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi gan gofnodi eu harsylwadau yn eu Dyddlyfr Proffesiynol.</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cynorthwydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob dydd bydd yr Hyfforddeion yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi gan gofnodi eu harsylwadau yn eu Dyddlyfr Proffesiynol</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Sesiwn dan arweiniad mentor: Cyfnod estynedig o adfyfrio. Adolygu'r wythnos gyfan - o sgwrs dosbarth cyfan i weithgareddau grŵp bach</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth wnaethoch sylwi arno? Ceisiais addysgu hyn - beth ddigwyddodd? Sut oedd y disgyblion yn siarad? Beth wnaethon nhw mewn grwpiau? Sut wnaethon nhw ryngweithio? <p>Mae Athrawon Cyswllt yn postio eu tasg adfyfiriol (200 gair) ar y Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> <p>Mentor i gysylltu â'r tiwtor cyswllt os oes unrhyw destun pryder</p> |

Cam 1 Wythnos 2 (8/11/21-12/11/21).

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|--|--|--|--|--|
| <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi dosbarth cyfan gyda ffocws ar lafaredd/sgwrsio A rhifedd.</p> <p>Sut mae'r disgyblion yn dysgu mathemateg? Sut maen nhw'n siarad amdano? Cysylltu â modelau damcaniaethol o ddysgu mathemateg.</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi un disgybl (wedi'i nodi o'r proffil Cyfnod Sylfaen) gyda ffocws ar lafaredd/sgwrsio A rhifedd.</p> <p>Sut mae'r ymddygiad, y sgwrs a'r dysgu a arsylwyd yn cymharu â'u proffil?</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi ar ail ddisgybl (wedi'i nodi o'r drafodaeth gyda'r mentor) gyda ffocws ar lafaredd / sgwrsio A rhifedd.</p> <p>Sut mae'r ymddygiad, y sgwrs a'r dysgu a arsylwyd yn cymharu â'u proffil?</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol Gwersi'r bore</p> <p>Arsylwi grŵp bach mewn meysydd dysgu creadigol/corfforol.</p> <p>Nodi edefyn perthnasol y Proffil Cyfnod Sylfaen - a yw'r dysgwyr hyn wedi gwneud cynnydd yn y meysydd a gofnodwyd?</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Amser Cynllunio AC</p> <p>Archwilio adnoddau dosbarth a chynllunio</p> <p>Gweithgareddau lles i grŵp bach er mwyn rhannu drafft gyda'r mentor cyn diwedd y dydd.</p> |
| <p>Prynhawn</p> <p>Sesiwn o dan arweiniad mentor yn cyflwyno Proffiliau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Sut / pryd maen nhw'n cael eu rheoli / cofnodi a sut mae'r ysgol yn eu defnyddio. Gydag arweiniad y mentoriaid dylai'r AC nodi un plentyn i'w arsylwi'n fanwl yn ystod y diwrnodau canlynol</p> <p>Adfyfrio: Hyfforddeion i ddadansoddi'r proffiliau a'u cymharu â'r hyn maen nhw wedi'i weld yn y dosbarth. Trafod a chymryd nodiadau yn eu dyddlyfrau.</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cefnogi dysgu yn nosbarth yr AC arall, a chymryd rôl y Cymhorthydd Dysgu o dan gyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p>Adfyfrio: Mae'r ddau AC yn cymharu'r ddwy ystafell ddosbarth, gan dynnu sylw at wahaniaethau y gellir eu priodoli i oedran neu ddysgu blaenorol</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cefnogi dysgu yn nosbarth yr AC arall, a chymryd rôl y Cymhorthydd Dysgu o dan gyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd</p> <p>Adfyfrio: Mae'r ddau AC yn cymharu'r ddwy ystafell ddosbarth, gan dynnu sylw at wahaniaethau y gellir eu priodoli i oedran neu ddysgu blaenorol</p> | <p>Prynhawn</p> <p>O dan arweiniad Mentor: Adfyfrio Estynedig AC yn paratoui cyflwyniad adfyfryol i'w adolygu yn y SAU gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt.</p> <p>AC yn crynhoi'r dysgu mewn llythrennedd a mathemategol a arsylwyd dros y pythefnos.</p> <p>Adfyfrio estynedig: AC yn myfyrio ynghylch y cysylltiadau rhwng proffiliau gwaelodlin y disgyblion a'u harsylwadau ac yn paratoui ar gyfer eu cyflwyniad yn y SAU.</p> | <p>Mentor i gysylltu â'r tiwtor cyswllt os oes unrhyw destun pryder</p> <p>Parhau â'r amser cynllunio, neu gefnogi'r athro dosbarth fel Cymhorthydd Addysgu.</p> |

Cam 2 Wythnos 1 (10/1/22- 14/1/22).

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|--|---|---|---|
| <p>Bore Arsylwi Gwersi yn y cyfnod sylfaen.</p> <p>Canolbwyntio ar ddechreuwr/dechreuadau; trawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ymgysylltu; Asesu ar gyfer Dysgu (cyfeiriwch at y traethawd).</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>DIWRNOD YN YR YSGOL ARWEINIOL</p> <p>Iechyd a lles a'r Dyniaethau XCE 1215.</p> | <p>Bore Arsylwi Gwers yn y cyfnod sylfaen.</p> <p>Canolbwyntio ar ddiweddglu gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ymgysylltu;</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> | <p>Bore Addysgu mewn tîm Gwers ar lythrennedd/rhifedd/mathemateg a gynlluniwyd gan y mentor*; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol, megis cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cymhorthydd Addysgu gydag unigolion.</p> <p>*Amser mentor wedi'i ddyrannu i rannu cynlluniau gwersi a allai fod yn fwy manwl na'r arfer.</p> | <p>Bore Addysgu mewn tîm Gwers wedi'i chynllunio gan y mentor*; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol, megis cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cymhorthydd Addysgu gydag unigolion.</p> |
| <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodwch pa MDaPh/maes dysgu sy'n cael sylw. Nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei chaffael a'r addysgeg sy'n cael ei harfer gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p> <p>Adfyfyrio: Ar ddiwedd pob dydd bydd yr hyfforddeion yn adfyfyrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi</p> | | <p>Cyflwyno gweithgaredd llesiant i grŵp bach o ddysgwyr.</p> <p>Meithrin perthynas, asesu sgiliau cyfathrebu ac adfyfyrio'n fyr ar y cyflwyno.</p> <p>Cyflwyno gweithgaredd lles i grŵp bach o ddysgwyr, gan wneud unrhyw newidiadau yn syth ar ôl adfyfyrio. Meithrin perthynas, asesu sgiliau cyfathrebu ac adfyfyrio.</p> <p>Myfyrio a chofnodi Gwerthuso yn y dyddlyfr.</p> | <p>Cyflwyno gweithgaredd llesiant i grŵp bach o ddysgwyr.</p> <p>Meithrin perthynas, asesu sgiliau cyfathrebu ac adfyfyrio'n fyr ar y cyflwyno.</p> <p>Cyflwyno gweithgaredd lles i grŵp bach o ddysgwyr, gan wneud unrhyw newidiadau yn syth ar ôl adfyfyrio. Meithrin perthynas, asesu sgiliau cyfathrebu ac adfyfyrio.</p> <p>Myfyrio a chofnodi Gwerthuso yn y dyddlyfr.</p> | <p>Prynhawn O dan arweiniad Mentor:Adfyfyrio Estynedig Ar y ddwy wers y mae'r AC yn cefnogi ynddynt Beth a ddysgwyd? Sut wnaeth y mentor asesu'r dysgu? A oedd y gweithgareddau'n effeithiol? A oedd angen rhoi sylw i unrhyw ymddygiadau oddi ar y dasg? Beth oedden nhw? Beth fyddai'r mentor yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?</p> <p>Athrawon Cyswllt i adolygu eu hadfyfyrio dyddiol yn eu Dyddlyfr Proffesiynol Uwchlwytho tystiolaeth ac asedau perthnasol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> |

Cam 2 Wythnos 2 (17/1/22-21/1/22).

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|--|---|--|--|---|
| <p>Bore Addysgu mewn tîm Gwers sy'n seiliedig ar rifedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y mentor*; Yr AC yn cael rhagor o gyfrifoldeb i addysgu grŵp bach o ddysgwyr;</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p> | <p>Bore Addysgu mewn tîm Gwers ar rifedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y mentor*; AC yn cael rhagor o gyfrifoldeb i ddysgu grŵp bach o ddysgwyr;</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p> | <p>Microaddysgu 1 Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd penodol yn seiliedig ar lythrennedd.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p> | <p>Cyfle Microaddysgu 2 FfAA 1 Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd penodol yn seiliedig ar rifedd</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p> <p>Mentor i gysylltu â'r Tiwtor Cyswllt os oes testun pryder - A oes angen rhoi Cynllun Cefnogaeth Estynedig?</p> | <p>Prynhawn Ewch i'r dosbarth gwreiddiol Cyfle Microaddysgu 3 FfAA 1 Arsylwi Nodi cynlluniau posibl ar gyfer Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, a gwahaniaethu. Gwneud cysylltiadau rhwng Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gwahaniaethu a'r pedwar diben.</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion y dyddlyfr gysylltu'r deilliannau a arsylwyd, gweithgareddau a deilliannau â chynlluniau posibl e.e. "Sut fyddwn i wedi cynllunio ar gyfer hyn?" Defnyddiwch y Craidd Cyfarwyddol i ddadansoddi'r ystafell ddosbarth Mentor i rannu adborth i gefnogi Gwerthuso yn y dyddlyfr.</p> |
| <p>Prynhawn Y Mentor yn briffio'r AC ynglŷn â'r dasg microaddysgu. Rhoddir cefnogaeth ond rhaid i'r hyfforddai gynllunio sut y bydd y dasg yn cael ei chyflawni</p> <p>Mae'r AC yn dechrau cynllunio'r tasgau microaddysgu</p> | <p>Prynhawn Mentor yn gwirio cynlluniau'r microaddysgu</p> <p>AC yn cwblhau'r gwaith o gynllunio'r tasgau microaddysgu</p> | <p>Prynhawn Arsylwi gwersi yn y cyfnod iau os yn bosibl.</p> <p>Ffocws ar Asesu ar gyfer Dysgu (cyfeiriwch at y traethawd). Edrych ar y: cwestiynu; strategaethau; ymatebion y disgyblion; ymatebion yr athrawon. Nodi gwahaniaethau rhwng arddulliau addysgu'r ddau gyfnod. Cyfarfod â'r mentor i drafod cyfrifoldebau'r wythnos nesaf. Mentor i rannu adborth i gefnogi Gwerthuso yn y dyddlyfr.</p> | <p>Amser cynllunio ar gyfer cyfrifoldebau'r wythnos nesaf.</p> <p>Mentor i rannu adborth i gefnogi Gwerthuso yn y dyddlyfr.</p> <p>Mentor i gysylltu â'r Tiwtor Cyswllt os oes testun pryder - A oes angen rhoi Cynllun Cefnogaeth Estynedig?</p> | <p>Prynhawn Arsylwi gwersi mewn dosbarth arall.</p> <p>Ffocws ar Asesu ar gyfer Dysgu (cyfeiriwch at y traethawd). Edrych ar y: cwestiynu; strategaethau; ymatebion y disgyblion; ymatebion yr athrawon. Nodi gwahaniaethau rhwng arddulliau addysgu'r ddau gyfnod Adfyfrio Estynedig (Prynhawn)</p> |

Cam 3, Wythnos 1 (24/1/22- 29/1/22)

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|--|--|--|---|
| <p>Bore Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p>Cyfle Microaddysgu 4 FfAA 1 Addysgu'r gweithgaredd a gynlluniwyd</p> <p>Arsylwi Nodi cynlluniau posibl ar gyfer Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, a gwahaniaethu. Gwneud cysylltiadau rhwng Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gwahaniaethu a'r pedwar diben.</p> <p>Adfyfrio 1 Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y ficro-wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mentor i rannu adborth i gefnogi Gwerthuso yn y dyddlyfr.</p> | <p>Bore Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p>Addysgu gwrs fel tîm Athro/mentor yn briffio'r AC ac yn cael mewnbwn sylweddol i'r cynlluniau (Ile bydd AC yn addysgu dwy wers mewn tîm) Rhaid i AC gynllunio eu gweithredoedd eu hunain yn ogystal â rôl gefnogol eu cydweithiwr Mentor yn gwirio'r dyddlyfr.</p> | <p>Bore Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi gwrs Trafod y wers gyda'r mentor/athro/athrawes.</p> <p>Cynllunio'r wers gan edrych yn ôl gan ddefnyddio profforma CABAN a nodi'r agweddau allweddol sy'n angenrheidiol i'r wers</p> | <p>Bore Ewch i'r dosbarth gwreiddiol</p> <p>Addysgu gwrs Llythrennedd/Rhifedd fel tîm Athro/mentor yn briffio'r AC ac yn cael mewnbwn sylweddol i'r cynlluniau (Ile bydd AC yn addysgu dwy wers mewn tîm) Rhaid i AC gynllunio eu gweithredoedd eu hunain yn ogystal â rôl gefnogol eu cydweithiwr Mentor i rannu adborth i gefnogi'r AC i werthuso yn y dyddlyfr.</p> | <p>Bore Addysgu mewn tîm Os yn bosibl y wers i gael ei chynllunio a'i chyflwyno gan yr AA gydag AA arall (Cymhorthydd Addysgu/mentor) mewn rôl gefnogol</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC/Cymhorthydd Addysgu/Mentor sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol Mentor i gysylltu â'r Tiwtor Cyswllt os oes testun pryder - A oes angen rhoi Cynllun Cefnogaeth Estynedig?</p> |
| <p>Prynhawn Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r athro/athrawes/mentor ar gyfer microaddysgu yfory Cynllunio'r gweithgaredd (mae'n debygol y bydd yr AC yn cael y gweithgaredd/syniad gan y mentor).</p> | <p>Prynhawn Arsylwi Ffocws ar wahaniaethu fel rhan o Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a/neu faes dysgu. Nodi gwahanol ddulliau o ymdrin â chynnwys gwahanol Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.</p> | <p>Prynhawn Arsylwi Ffocws ar <i>Gymraeg Bob Dydd</i>. Casglu tystiolaeth ar gyfer y Portffolio Cymraeg. Adfyfrio Nodi agweddau allweddol ar gynllunio, gan ddefnyddio'r cynllun yn seiliedig ar arsylwi'r mentor/athro</p> | <p>Prynhawn Arsylwi Ffocws ar <i>Gymraeg Bob Dydd</i>. Casglu tystiolaeth ar gyfer y Portffolio Cymraeg. Adfyfrio Nodi agweddau allweddol ar gynllunio, gan ddefnyddio'r cynllun yn seiliedig ar arsylwi'r mentor/athro</p> | <p>Prynhawn Adfyfrio a chynllunio Adfyfrio ar agweddau allweddol ar gynllunio a'u rhoi ar waith yn eu cynlluniau eu hunain. Cynllunio gwrsi dydd Mawrth/Mercher i'r mentor gefnogi ac anodi. Mae AC yn postio eu myfyrdodau wythnosol gan gysylltu â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> |

Cam 3 Wythnos 2 (31/1/22-4/2/22).

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|--|---|---|--|---|
| <p>Bore</p> <p>Addysgu mewn tîm Gwers yn seiliedig ar lythrennedd wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan un AC gydag ail AC yn cefnogi (mentor/Cymhorthydd Addysgu)</p> <p>Adfyfyrion Dylai cofnodion y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p> | <p>Bore</p> <p>Addysgu 1 wers wedi'i chynllunio AC i gyflwyno rhagarweiniad i hanner y dosbarth cyfan, yna gweithgaredd grŵp yna gweithgaredd sy'n cloi'r wers. Gan gynnwys un arsylwad ffurfiol Cyfle ar gyfer FfAA 2</p> <p>Adfyfyrion Dylai'r cofnod yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p> | <p>Bore</p> <p>Addysgu 1 wers wedi'i chynllunio - AC i gyflwyno rhagarweiniad i hanner y dosbarth cyfan, yna gweithgaredd grŵp yna gweithgaredd sy'n cloi'r wers. Gan gynnwys un cyfle i arsylwi'n ffurfiol (FfAA 2)</p> <p>Adfyfyrion Dylai'r cofnod yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p> | <p>Bore</p> <p>Addysgu 1 wers wedi'i chynllunio AC i gyflwyno rhagarweiniad i hanner y dosbarth cyfan, yna gweithgaredd grŵp yna gweithgaredd sy'n cloi'r wers. Gan gynnwys un arsylwad ffurfiol Cyfle ar gyfer FfAA 2</p> <p>Adfyfyrion Dylai'r cofnod yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p> | <p>Bore</p> <p>Addysgu 1 wers wedi'i chynllunio AC i gyflwyno rhagarweiniad i hanner y dosbarth cyfan, yna gweithgaredd grŵp yna gweithgaredd sy'n cloi'r wers. Gan gynnwys un arsylwad ffurfiol Cyfle ar gyfer FfAA 2</p> <p>Adfyfyrion Dylai'r cofnod yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p> |
| <p>Prynhawn</p> <p>Cynllunio gwersi dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener gan ymgynghori â'r mentor.</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cynllunio gwersi dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener gan ymgynghori â'r mentor</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Arsylwi gwersi yn y cyfnod 7-11 oed os yn bosibl.</p> <p>Ffocws ar Asesu ar gyfer Dysgu (cyfeiriwch at y traethawd). Edrych ar y: cwestiynu; strategaethau; ymatebion y disgyblion; ymatebion yr athrawon.</p> <p>Nodi gwahaniaethau rhwng arddulliau addysgu'r ddau gyfnod.</p> | <p>Prynhawn</p> <p>Cyfarfod â'r mentor i adolygu gwersi a gosod targedau ar gyfer Cam 4. Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei dysgu a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?) Nodi cyfleoedd Asesu ar gyfer Dysgu.</p> <p>Adfyfyrion Estynedig (Prynhawn)</p> | <p>Cyfarfod â'r mentor i adolygu gwersi a gosod targedau ar gyfer Cam 4. Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei dysgu a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?) Nodi cyfleoedd Asesu ar gyfer Dysgu.</p> |